

❖ BYDD YN ESGOR AR FAB

‘Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau.’

Ni wŷr y Testament Newydd am reswm arall ar wahân i hyn dros ddathlu'r Nadolig: ‘Efe a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau.’ Hyn, hefyd, yw cyffes angerddol yr Eglwys Gristnogol. Gwir y bu yn hanes yr Eglwys rai, o dro i dro, a ddadleuai y buasai ymgawdoliad hyd yn oed pe na buasai dyn wedi cwmpo yn Eden. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw sail ysgrythurol dros y fath syniad. Er mwyn symud ymaith bechod y daeth Mab Duw i'n byd.

Mewn oes fel yr un bresennol lle y collwyd golwg, i raddau helaeth, ar wir arwyddocâd pechod, anodd, a dweud y lleiaf, yw i Gristnogion amgyffred gwir ystyr y Nadolig.

A siarad yn gyffredinol, ymwrthododd pulpud Cymraeg y ganrif hon â'r athrawiaeth am y Cwmp ac aethpwyd i ystyried y pechod gwreiddiol fel tipyn o jôc. Condemniwyd, mae'n wir, a hynny'n chwyrn, bechodau unigol, megis meddwdod, ond anaml iawn y cyffyrddwyd â phechod – pechod fel gwrthryfel dyn yn erbyn Duw. Aeth y pulpud yn nerfus iawn yng ngŵydd gwirionedd mor radical.

Cyfyd llawer iawn o'r anawsterau a deimlir ynglŷn â'r athrawiaeth o'r ffaith ein bod yn gosod ein profiadau yn sail i'n diwinyddiaeth. Wrth gwrs ein bod, a siarad ar lefel bersonol, wedi derbyn llawer iawn o garedigrwydd oddi ar law ‘pechaduriaid’ amlwg ac wedi derbyn, gwaetha'r modd, niwed, ar dro, oddi ar law pobl dda.

Diau, a siarad ar lefel bersonol eto, fod peth gwir yn y gosodiad: Mae ychydig o'r drwg ym mhawb ac ychydig o'r da – O, mor wylaidd ydym – ym mhawb. A beth am y frawddeg honno o *Under Milk Wood*, Dylan Thomas, sydd wedi tyfu i statws adnod bron yng ngenau llawer o bregethwyr gan mor aml y dyfynnir hi: ‘We are not wholly good or wholly bad who live their lives under Milk Wood’?

Drwy wneud agwedd o'n profiad yn ffon fesur ein diwinyddiaeth ni welir bod dim o'i le ar ystyried dyn, o'i ymddihatu oddi wrth amgylchiadau anffafriol a dylanwadau drwg, yn hanfodol dda. Onid yw'r modd y gwedir bod baban bach wedi etifeddu, mewn unrhyw ffordd, ‘natur lygredig Adda’, yn brawf arall, os oes angen prawf, ein bod wedi colli golwg ar wir ystyr pechod? Tyfu yn bechadur a wna dyn, os tyfu o gwbl.

A dweud y lleiaf, rhywbeth sy'n gorwedd, a hynny, sylwch, yn ddigon anghyfforddus ar wyneb y natur ddynol yw pechod yn ein golwg. Addefir weithiau, wrth gwrs, ei fod yn gorwedd yn esmwythach ar natur ambell unigolyn yn fwy na'i gilydd. Ond nid yw hynny'n rheswm o gwbl dros amau ein hargyhoeddiad, a chymryd popeth i ystyriaeth, ein bod yn bobl reit dda ar y cyfan.

O feddwl am y peth, tipyn o ddirgelwch yw'r Nadolig inni. Popeth yn iawn os sonnir am y cariad dwyfol sydd tu ôl i'r baban a gaed mewn preseb, ond rhaid gwyllo nad yw nodau barn Duw yn taro ar ein clyw wrth inni ddynesu at y preseb hwnnw.

Ond drwy ddehongli'r Nadolig yng ngoleuni'r Groes mynna'r Eglwys Gristnogol ein cyfeirio at farn Duw arnom. Am fod pechod yn rhywbeth ofnadwy yng ngolwg Duw y ganwyd y mab bychan.

Ac wrth gwrs, ar sail ffydd ac nid ar sail profiad y credir bod y natur ddynol yn llygredig. Ffydd yn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a ddiodefodd ar Galfaria dros bechodau'r byd. Yno, wrth droed y Groes, y gwelir na allai dim ond ymgawdoliad a marwolaeth Mab Duw ddelio'n derfynol â phechod.

Nid yw dehongli'r Nadolig yng ngoleuni'r Groes yn tynnu dim oddi wrth gariad Duw yn anfon ei Fab i'n byd. I'r gwrthwyneb, mae'n gyfrwng i'n hatgoffa mai cariad sanctaidd yw cariad Duw.

Gwyndaf Jones